


# ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYDRADDOLDEB

2023-24



# Cynnwys

---

<b>1. Ynghylch y Coleg</b>	<b>03</b>
<b>2. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yng Ngholeg Cambria</b>	<b>03</b>
<b>3. Y Gyfraith</b>	<b>04</b>
<b>4. Ein Pobl</b>	<b>06</b>
<b>5. Ein Haddewid</b>	<b>18</b>
<b>6. Ein Cynlluniau</b>	<b>19</b>
<b>7. Ein Cynnydd</b>	<b>20</b>

# 1.1. Ynghylch y Coleg

**Mae Coleg Cambria wedi sefydlu ei hun yn gyflym fel darparwr addysg blaenllaw yn y DU. Prif flaenoriaeth y Coleg yw darparu addysgu a dysgu rhagorol, er mwyn ymestyn, herio ac ysbrydoli pob dysgwr i archwilio a chyflawni eu llawn botensial.**

Yn un o'r colegau mwyaf yn y DU, mae gan Goleg Cambria 6,300 o fyfyrwyr llawn amser a 6,500 o ddsygwyr rhan-amser. Ar draws ei chwe safle, mae Cambria yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau llawn amser a rhan-amser gan gynnwys Safon Uwch, cymwysterau galwedigaethol, rhaglenni Cymraeg i Oedolion ac Addysg Uwch. Gan weithio mewn partneriaeth â dros 1,000 o gyflogwyr, mae'r Coleg hefyd yn cynnig llawer o gyfleoedd Prentisiaeth a Hyfforddeiaeth gyda chysylltiadau cryf â chyflogaeth leol.

Wedi'i leoli ar ffin Gogledd Ddwyrain Cymru, mae Cambria yn cynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf gan ddefnyddio technoleg flaenllaw i hwyluso arddulliau dysgu newydd a diwallu anghenion busnes. Mae rhaglen fuddsoddi ddeinamig y Coleg yn ei ystadau a'i adnoddau yn canolbwyntio'n gryf ar wella profiad y dysgwr. Rydym yn gosod ein myfyrwyr wrth wraidd popeth a wnawn ac yn ymfalchio mewn darparu profiad dysgu personol o ansawdd uchel. Mae ymgysylltiad ac uchelgais ar draws y Coleg yn gryf, gyda boddhad myfyrwyr a staff i'w weld yn glir yn y canlyniadau cadarnhaol i'n harolwg.

## 2. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yng Ngholeg Cambria

**Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn gyfrifoldeb ar y cyd ledled Coleg Cambria. Mae gennym oll ddealltwriaeth a dyletswydd i gynnal cydraddoldeb ac amrywiaeth i greu coleg cwbl gynhwysol i bawb. I greu diwylliant coleg cynhwysol, mae gennym strwythurau, polisiau a phrosesau wedi eu sefydlu i sicrhau gwaredu anffafiaeth, aflonyddu ac erledigaeth; hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd; a meithrin perthnasoedd da yn ein cymuned.**

Dylai pob agwedd ar ein sefydliad o'r staff, i'r dysgwyr, i'r llywodraethwyr, i'r rhanddeiliaid ddeall ein hymrwymiad a'n hymagwedd at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd ein holl gymuned Coleg Cambria yn cynrychioli ein natur gynhwysol.

Mae'r Gorfforaeth (Bwrdd y Llywodraethwyr) yn cydnabod ei chyfrifoldeb am gydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae'n dirprwyo'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod rhwymedigaethau cyfreithiol a pholisiau yn cael eu bodloni i'r Prif Weithredwr. Mae'r Adroddiad Blyneddol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth a gyflwynir i'r llywodraethwyr yn gweithredu fel dull monitro pwysig yn ogystal â sicrhau atebolrwydd.

Mae'r Dirprwy Brif Weithredwr (Profiadau Pobl a Diwylliant) yn cadeirio'r Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd ag aelodau o ledled y coleg. Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am:

- Adolygu a chynghori ar bolisiau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Craffu a monitro cynnydd amcanion cydraddoldeb
- Rhoi sylwadau ar fentrau sy'n ymwneud â hyrwyddo Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae gennym nifer o grwpiau ffocws hefyd, y mae iddynt swyddogaeth bwysig i gynorthwyo'r coleg i gyflawni diwylliant cynhwysol. Mae gan y coleg Gydlynedd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth pwrpasol ei hun hefyd, sy'n gyfrifol am roi cyngor a chymorth yn ogystal â gosod cynlluniau a monitro cynnydd.

## 3. Y Gyfraith

---

**Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno un Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (y PSED) i ddisodli'r ddyletswyddau cydraddoldeb hil, anabledd a rhywedd a oedd yn bodoli eisoes. Mae'r Ddeddf yn gwahardd gwahaniaethu mewn cyflogaeth, addysg a darparu nwyddau a gwasanaethau mewn perthynas â naw o Nodweddion Gwarchodedig sydd fel a ganlyn:**

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

Mae'r Ddeddf yn disgrifio meithrin perthnasoedd da fel mynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pobl sydd â nodwedd warchodedig a'r rhai nad oes ganddynt nodwedd warchodedig. Efallai bydd cyflawni'r ddyletswydd yn cynnwys trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill, cyn belled nad yw hynny'n mynd yn groes i ddarpariaethau eraill yn y Ddeddf.

Felly yn syml, nid yw 'cydraddoldeb' yn golygu trin pawb yr un fath. Mae'n golygu deall a mynd i'r afael â'r gwahanol rwystrau i gyfle cyfartal y mae gwahanol bobl yn eu hwynebu, fel bod pawb yn cael cyfle teg i gyflawni eu potensial. Nod cyffredinol y ddyletswydd cydraddoldeb yw sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio i waith y coleg, a dylai hynny yn ei dro arwain at ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau yn fwy priodol, gan ystyried cefndiroedd unigolion.

Mae'r ddyletswydd yn adeiladu ar y ddyletswyddau blaenorol o ran rhywedd, hil ac anabledd. Mae'n cynrychioli newid sylweddol mewn dull gweithredu, o fframwaith cyfreithiol a oedd yn dibynnu ar bobl unigol yn cwyno am wahaniaethu, i gyd-destun lle mae'r sector cyhoeddus yn dod yn asiant newid rhagweithiol.

Mae'r llywodraeth a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi ei gwneud yn glir bod yn rhaid i gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys colegau addysg bellach, brif ffrydio cydraddoldeb yn eu swyddogaethau mewnol ac allanol, ac mae'r ddyletswydd yn darparu dull i fynd i'r afael â gwahaniaethu sefydliadol mewn polisïau, arferion a gweithdrefnau.

Mae'r Ddeddf yn egluro bod rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- Diddymu neu leihau'r anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig
- Gweithredu i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill
- Annog pobl â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i'r egwyddorion hyn o brif ffrydio cydraddoldeb ac mae'n croesawu'r newidiadau deddfwriaethol hyn. Rydym yn deall y bydd prif ffrydio materion cydraddoldeb yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein nodau mewn modd mwy ystyrlon, a fydd yn cyrraedd pob grŵp yn ein cymuned yn fwy effeithiol.

---

Ym mis Ebrill 2011, gweithredwyd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus Unigol fel rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn yr un mis, cyflwynodd Llywodraeth Cymru reoliadau i weithredu cyfres o ddyletswyddau penodol i fod yn sail i'r ddyletswydd gyffredinol; sef:

- Cyhoeddi amcanion cydraddoldeb erbyn 2 Ebrill 2014, sydd i'w hadolygu bob 4 blynedd,
- Cyhoeddi datganiad sy'n nodi'r camau a gymerodd neu'n bwriadu eu cymryd i gyflawni pob amcan, a'r amserlen i'w cyflawni,
- Monitro cynnydd ac effeithlonrwydd y camau a gymerwyd,
- Canfod, ceisio a lle bo hynny'n briodol, cyhoeddi gwybodaeth y gellir ei defnyddio i fesur p'un a yw'r ddyletswydd gyffredinol yn cael ei chyflawni,
- Cynnal a chyhoeddi asesiadau effaith sy'n dangos sut mae ei bolisiau a'i arferion cyfredol ac arfaethedig yn effeithio ar allu'r sefydliad i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol,
- Casglu a chyhoeddi data gweithwyr penodol yn flynyddol, drwy gyfeirio at nodweddion gwarchoddedig er mwyn hybu dealltwriaeth gweithwyr o'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol.

# 4. Ein Pobl

## Ffynonellau Gwybodaeth

Casglwyd ein data staff ar 22 Medi 2023. Mae ein data dysgwyr yn adlewyrchu blwyddyn academaidd 22/23 ac yn adlewyrchu nifer y dysgwyr yn y flwyddyn academaidd honno.

Casglwyd data myfyrwyr ar grefydd, cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd trwy ein harolwg LIFE, yr ymatebodd <25% o ddysgwyr AB iddo. Mae yna fymryn o wahaniaeth rhwng data cofrestru a data LIFE, yn debygol oherwydd newidiadau mewn hunaniaeth yn ystod y cwrs.

Roedd yr holl ddata yn gywir ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ac o ganlyniad gall fod yn wahanol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol. Ceir manylion ein cynlluniau i wella dulliau casglu data a'r nifer sy'n cymryd rhan mewn arolygon mewn adrannau yn nes ymlaen.

## EIN STAFF

Rhywedd	Rheolwyr	Cymorth Busnes	Academaidd	Cyfanswm y Staff
Gwryw	33	281	221	535
Benyw	59	516	271	846

## Oedran

	Rheolwyr	Cymorth Busnes	Academaidd	Cyfanswm y Staff
16-19	0	10	1	11
20-29	0	91	13	104
30-39	11	184	94	289
40-49	35	166	138	339
50-59	37	208	182	427
60-69	8	122	63	193
70+	0	16	5	21

Ailbennu Rhywedd	Rheolwyr	Cymorth Busnes	Academaidd	Cyfanswm y Staff
Do	1	10	6	17
Naddo	88	757	478	1323
Gwell Gennyf Beidio â Dweud	2	30	12	44

---

## Cyfeiriadedd Rhywiol

	Rheolwyr	Cymorth Busnes	Academaidd	Cyfanswm y Staff
Heterorywiol	75	601	347	1023
Hoyw neu Lesbiad	6	15	10	31
Deurywiol	1	10	2	13
Arall	0	6	0	6
Gwell Gennyf Beidio â Dweud	9	165	137	311

## Anabledd

	Rheolwyr	Cymorth Busnes	Academaidd	Cyfanswm y Staff
Dim Anabledd	87	756	463	1306
Anabledd	4	41	33	78

## Crefydd

	Rheolwyr	Cymorth Busnes	Academaidd	Cyfanswm y Staff
Cristion	48	310	165	523
Anffyddiwr	2	15	9	26
Bwdhydd	0	3	2	5
Mwslim	0	1	0	1
Dim Ymlyniad Crefyddol	29	290	152	471
Arall	0	10	5	15
Gwell Gennyf Beidio â Dweud	12	168	162	342

## 4. Ein Pobl

### Hil

	Rheolwyr	Cymorth Busnes	Academaidd	Cyfanswm y Staff
Gwyn - Prydeinig	77	581	397	1055
Gwyn - Cymreig	11	121	59	191
Gwyn - Seisnig/ Gwyddelig/ Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon	2	24	9	35
Gwyn - Arall	1	21	12	34
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig - Indiaidd	0	3	1	4
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig- Pacistanaidd	0	0	0	0
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd	0	3	1	4
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig - Arall	0	1	0	1
Du / Du Prydeinig - Affricanaidd	0	4	2	6
Du / Du Prydeinig - Caribïaidd	0	0	1	1
Cymysg / Cymysg Brydeinig - Asiaidd	0	3	1	4
Cymysg / Cymysg Brydeinig - Affricanaidd Du	0	1	0	1
Cymysg / Cymysg Brydeinig - Caribïaidd Du	0	1	1	1
Cymysg / Cymysg Brydeinig - Arall	0	4	1	5
Arall / Prydeinig Arall - Arabaidd	0	1	0	1
Arall	0	3	1	4
Gwell Gennyf Beidio â Dweud	0	25	10	35



## EIN DYSGWYR: ADDYSG BELLACH

### Nodweddion Dysgwyr yn 2022/23 - Casglwyd adeg cofrestru

Rhywedd	% o'r boblogaeth myfyrwyr AB
Gwryw	52
Benyw	47
Arall	1

Anabledd	% o'r boblogaeth myfyrwyr AB
Anhwyllder ar y Sbectrwm Awstistig	4
Ymddygiadol, Cymdeithasol ac Emosiynol	3
Dim Anabledd	77
Anhawster Dysgu Cyffredinol	<1
Nam ar y Clyw	<1
Gwybodaeth wedi'i Gwrthod	<1
Anawsterau Dysgu Cymedrol	<1
Nam Amlsynhwyrdd	<1
Anawsterau Corfforol a/neu Feddygol	2
Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog	<1
Hunanddatganedig ond y math yn anhysbys/heb ei ddatgan	<1
Anawsterau Dysgu Difrifol	<1
Anawsterau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu	<1
Anhawster Dysgu Penodol - Anhwyllder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd	4
Anhawster Dysgu Penodol - Dyscalwlia	<1
Anhawster Dysgu Penodol - Dyslecsia	6
Anhawster Dysgu Penodol - Dyspracsia	<1
Anhysbys	<1
Nam ar y Golwg	<1

## 4. Ein Pobl

### Ethnigrwydd

	% o'r boblogaeth myfyrwyr AB
Unrhyw Gefndir Gwyn arall	2
Arabaidd	<1
Asiaidd - Bangladeshaidd	<1
Asiaidd - Indiaidd	<1
Asiaidd - Pacistanaidd	<1
Du - Affricanaidd	<1
Du - Caribïaidd	<1
Tsieineaidd	<1
Gwybodaeth wedi'i Gwrthod	<1
Gwyddelig	<1
Cymysg - Gwyn ac Asiaidd	<1
Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd	<1
Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd	<1
Cefndir Asiaidd Arall	<1
Cefndir Du Arall	<1
Cefndir Ethnig Arall	<1
Cefndir Cymysg Arall	<1
Anhysbys	10
Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig	34
Gwyn	50

### Oedran

	% o'r boblogaeth myfyrwyr AB
16-18	50
19-24	12
25+	38

---

## Amddifadedd

	% o'r boblogaeth myfyrwyr AB
1-2	14
3-4	21
5-6	15
7-8	20
9-10	20

## EIN DYSGWYR: ADDYSG BELLACH

Nodweddion Dysgwyr yn 2022/23 - Casglwyd yn yr arolwg LIFE yn y Tymor Cyntaf

## Crefydd

	% o LIFE wedi'i gwblhau
Anffyddiwr	39
Ysbrydol Ond Heb Fod yn Grefyddol	9
Arall	12
Gwell Gennyf Beidio â Dweud	13
Bwdhydd	<1
Iddewig	<1
Mwslim	1
Hindŵ	<1
Cristion	17
Sïc	<1
Dyneiddiwr	<1
Agnostig	5

## 4. Ein Pobl

---

### Cyfeiriadedd Rhywiol

	% o LIFE wedi'i gwblhau
Strêt / Heterorywiol	73
Dyn Hoyw	1
Dynes Hoyw / Lesbiad	2
Deurywiol	8
Panrywiol	3
Anrhywiol	1
Cwiar	1
Arall	1
Gwell Gennyf Beidio â Dweud	5

### Hunaniaeth Drawsryweddol

	% o LIFE wedi'i gwblhau
Dyn Traws	2
Dynes Draws	1
Anneuaid	10

## EIN DYSGWYR: ADDYSG UWCH

### Nodweddion Dysgu AU yn 2022/23 - Casglwyd adeg cofrestru

Rhywedd	% o boblogaeth y myfyrwyr AU
Benyw	34
Gwryw	66
Arall	0

Anabledd	% o boblogaeth y myfyrwyr AU
Anhwyllder ar y Sbectrwm Awstistig	<1
Ymddygiadol, Cymdeithasol ac Emosiynol	<1
Dim Anabledd	87
Anhawster Dysgu Cyffredinol	0
Nam ar y Clyw	<1
Gwybodaeth wedi'i Gwrthod	0
Anawsterau Dysgu Cymedrol	<1
Nam Amlsynhwyrdd	0
Anawsterau Corfforol a/neu Feddygol	1.6
Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog	0
Hunanddatganedig ond y math yn anhysbys/heb ei ddatgan	3
Anawsterau Dysgu Difrifol	0
Anawsterau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu	0
Anhawster Dysgu Penodol - Anhwyllder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd	<1
Anhawster Dysgu Penodol - Dyscalcwlia	0
Anhawster Dysgu Penodol - Dyslecsia	6
Anhawster Dysgu Penodol - Dyspracsia	<1
Anhysbys	0
Nam ar y Golwg	<1

## 4. Ein Pobl

### Ethnigrwydd

	% o boblogaeth y myfyrwyr AU
Unrhyw Gefndir Gwyn Arall	1
Arabaidd	<1
Asiaidd - Bangladeshaidd	<1
Asiaidd - Indiaidd	<1
Asiaidd - Pacistanaidd	<1
Du - Affricanaidd	<1
Du - Caribiaidd	0
Tsieineaidd	<1
Gwybodaeth wedi'i Gwrthod	<1
Gwyddelig	0
Cymysg - Gwyn ac Asiaidd	<1
Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd	<1
Cymysg - Gwyn a Caribiaidd Du	<1
Cefndir Asiaidd Arall	0
Cefndir Du Arall	0
Cefndir Ethnig Arall	0
Cefndir Cymysg Arall	<1
Anhysbys	6
Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig	55
Gwyn	33

### Oedran

	% o boblogaeth y myfyrwyr AU
16-18	19
19-24	48
25+	33

---

## Amddifadedd

	% o boblogaeth y myfyrwyr AU
1-2	3
3-4	12
5-6	13
7-8	22
9-10	21

## DYSGU YN Y GWAITH

### Nodweddion Dysgwyr DyyG yn 2022/23 - Casglwyd adeg cofrestru

## Rhywedd

	% o boblogaeth myfyrwyr DyyG
Benyw	39
Gwryw	61
Arall	<1

## Oedran

	% o boblogaeth myfyrwyr DyyG
16-18	30
19-24	33
25+	37

## Amddifadedd

	% o boblogaeth myfyrwyr DyyG
1-2	8
3-4	17
5-6	16
7-8	24
9-10	21

## 4. Ein Pobl

### Anabledd

	% o boblogaeth myfyrwyr DdyG
Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig	<1
Ymddygiadol, Cymdeithasol ac Emosiynol	<1
Dim Anabledd	84
Anhawster Dysgu Cyffredinol	<1
Nam ar y Clyw	<1
Gwybodaeth wedi'i Gwrthod	<1
Anawsterau Dysgu Cymedrol	<1
Nam Amlsynhwyrdd	<1
Anawsterau Corfforol a/neu Feddygol	<1
Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog	<1
Hunanddatganedig ond y math yn anhysbys/heb ei ddatgan	4
Anawsterau Dysgu Difrifol	<1
Anawsterau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu	<1
Anhawster Dysgu Penodol - Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd	1
Anhawster Dysgu Penodol - Dyscalwlia	<1
Anhawster Dysgu Penodol - Dyslecsia	6
Anhawster Dysgu Penodol - Dyspracsia	<1
Anhysbys	1
Nam ar y Golwg	<1



## Ethnigrwydd

	% o boblogaeth myfyrwyr DdyG
Unrhyw Gefndir Gwyn arall	7
Arabaidd	<1
Asiaidd - Bangladeshaidd	<1
Asiaidd - Indiaidd	<1
Asiaidd - Pacistanaidd	<1
Du - Affricanaidd	<1
Du - Caribïaidd	<1
Tsieineaidd	<1
Gwybodaeth wedi'i Gwrthod	<1
Gwyddelig	<1
Cymysg - Gwyn ac Asiaidd	<1
Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd	<1
Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd	<1
Cefndir Asiaidd Arall	<1
Cefndir Du Arall	<1
Cefndir Ethnig Arall	<1
Cefndir Cymysg Arall	<1
Anhysbys	<1
Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig	75
Gwyn	20

## 5. Ein Haddewid

---

**Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i greu lle gwirioneddol gynhwysol a chyfartal i'n cymuned i gyd. Rydym yn deall bod yn rhaid i gynhwysiant fod wrth wraidd yr hyn a wnawn.**

Rydym wedi creu dull newydd sbon o ymdrin â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth yma yng Ngholeg Cambria. Mae'r dull hwn yn ymwneud â sicrhau bod ein holl staff, dysgwyr a rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb a rennir i gynnal cydraddoldeb; a bod gan bawb y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r gefnogaeth i wneud hyn.

O fewn y dull newydd hwn rydym wedi gosod nod i fod 'Y coleg mwyaf rhagweithiol yng Nghymru o ran cynhwysiant erbyn 2024'. Bydd hyn yn adfywio ein dull gweithredu i sicrhau bod cynhwysiant yn rhan annatod o bopeth a wnawn. Rydym yn cydnabod bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn brosesau parhaus y mae'n rhaid i ni fod yn ymdrechu i wella arnynt drwy'r adeg. Gan hynny, rydym wedi lansio cynllun cam gweithredu newydd, a dull newydd o gefnogi ein gwaith yn y maes hwn.

## 6. Ein Cynlluniau

### Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2022-2024

I gyd-fynd â'n nod newydd o fod 'Y coleg mwyaf rhagweithiol yng Nghymru o ran cynhwysiant erbyn 2024', rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2022-2024 newydd. Crëwyd y cynllun gan ystyried y Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol, y gwaith yr ydym eisoes wedi'i gyflawni, a meysydd y gallwn wella arnynt yn ein dull gweithredu newydd. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi'r meysydd datblygu allweddol ar gyfer y coleg a'r camau gweithredu y byddwn yn eu gweithredu i wella cynhwysiant yn y meysydd hyn. Y meysydd allweddol hyn yw:

- Dull Gweladwy, Holistaidd a Chroestoriadol
- Polisiâu, Prosesau a Llywodraethiant
- Hyrwyddo Parch ac Atal Rhagfarn
- Ymrwymiad a Gwybodaeth
- Dysgu ac Addysg
- Profiadau Byw

### Amserlen Rhyddhau Adroddiadau a Chynlluniau

Fel yr adroddwyd ym mis Ebrill, i gefnogi ein dull gweithrediad newydd a'n hunanasesiad a'n cynllunio mewnol ein hunain, bydd Coleg Cambria yn newid amserlen rhyddhau'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb. O hyn ymlaen, bydd yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb yn cael ei ryddhau erbyn 1 Medi bob blwyddyn i adfyfrio ar y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd y rhain yn cael eu rhyddhau cyn y dyddiad cau cenedlaethol ar gyfer 1 Ebrill y flwyddyn ganlynol.

Byddwn hefyd yn newid enw'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb i'r Adroddiad Effaith ar Gydraddoldeb. Mae hyn er mwyn adlewyrchu ein ffocws ar fonitro ein camau gweithredu a'r effaith y maent wedi'i chael.

Bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 yn cael ei ryddhau erbyn 1 Ebrill 2024. Byddwn wedyn yn darparu diweddariadau ar ein cynnydd bob blwyddyn yn yr Adroddiad Effaith ar Gydraddoldeb 23/24 i'w ryddhau ym mis Medi 2024.

Mae hyn yn golygu bod yr amserlen ryddhau gyfredol ac arfaethedig ar gyfer adroddiadau a chynlluniau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth fel a ganlyn:

Adroddiad/Cynllun	Dyddiad Rhyddhau
Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth*	1 Medi 2022
Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol 2022-2024	1 Ebrill 2023
Cynllun Cydraddoldeb Blynyddol 2022-2023 (#1)	1 Ebrill 2023
Cynllun Cydraddoldeb Blynyddol 2022-2023 (#2)	1 Medi 2023
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028**	1 Ebrill 2024
Adroddiad Effaith ar Gydraddoldeb 2023-2024	1 Medi 2024

\*cynllun dros dro a fydd yn cael ei ymgorffori yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol o 2024 ymlaen

# 7. Ein Cynnydd

Wrth i ni symud ymlaen i ddatblygiad ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-2028, byddwn yn darparu diweddariadau ar gyflawni ein camau gweithredu a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024. Lle nad yw camau gweithredu wedi'u cwblhau, rydym yn bwriadu defnyddio'r meysydd hyn i lywio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028.

Yn ogystal, byddwn yn darparu diweddariadau ar gynnydd Blwyddyn Gyntaf ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. O Fedi 24/25 byddwn yn alinio ein holl waith cydraddoldeb o dan Gynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2024-2028.

## CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020 - 2024 DIWEDDARIAD

### Amcan 1: Hygyrchedd i bawb

Cam Gweithredu	Diweddariad	Cynnydd
Datblygu cyfleoedd a lleoliadau gwaith â chymorth i bobl anabl.	Datblygu dau lwybr interniaeth â chymorth yn y gwaith i ddysgwyr yn SBA	CWBLHAWYD
Cadw at God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru.	Mae Rheolwr ADY newydd wedi'i recriwtio i oruchwylio gweithrediad Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru  Mae dwy rôl newydd (Arbenigwr CDP ac Arbenigwr Adolygu) wedi'u datblygu a'u recriwtio i gefnogi'r gwaith hwn  Rydym yn cynnal Arfer Statudol	CWBLHAWYD
Codi ymwybyddiaeth o effaith anabledau cudd ar gyfranogiad a chynhwysiant ym mywyd coleg.	Rydym yn cynnig hyfforddiant i feysydd cwricwlwm o amgylch ystafelloedd dosbarth cynhwysol sy'n codi ymwybyddiaeth o bresenoldeb anabledau anweledig a sut i gefnogi dysgwyr sy'n eu profi  Mae ymwybyddiaeth o'r ystod o anabledau anweledig wedi'i hymgorffori yn y Cwricwlwm Cydlynol sy'n cefnogi staff i ymgorffori cynhwysiant o fewn y cwricwlwm  Rydym wedi datblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledau sy'n cael ei ddarparu i staff ar eu diwrnod ymsefydlu, ac o fewn ein diwrnodau DPP ar draws y coleg	CWBLHAWYD
Archwiliadau o adeiladau'r coleg i lywio cynllun gweithredu ar sut i wella mynediad i staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill.	Cynhaliwyd archwiliad o adeiladau'r coleg a datblygwyd cynllun gweithredu i gefnogi hyn	CWBLHAWYD

<p>Cynyddu nifer y staff a'r myfyrwyr sy'n cwblhau ffurflenni monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (CacA).</p>	<p>Cwblhawyd ffurflen monitro CacA gan y staff i gyd, a'u hannog i'w diweddarau yn rheolaidd</p> <p>Ym mlwyddyn academiaidd 22/23 fe wnaeth dysgwyr sy'n cwblhau'r ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth fwy na dyblu yn sgil ei hymgorffori yn ein Harolwg LIFE</p>	<p>CWBLHAWYD</p>
--	--	------------------

## Amcan 2: Hyrwyddo Symudedd Cymdeithasol

Cam Gweithredu	Diweddariad	Cynnydd
<p>Datblygu cynlluniau i gefnogi cynnydd staff.</p>	<p>Mae Rhaglen Darpar Arweinwyr wedi cael ei datblygu</p> <p>Yn 23/24, roedd y Rhaglen Darpar Arweinwyr yn cadw 25% o lefydd ar gyfer staff o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol e.e. LHDTC+, lleiafrif ethnig, anabl neu niwroamrywiol</p>	<p>CWBLHAWYD</p>
<p>Gweithredu mentora, hyfforddi a chynllunio llwyddiannus i gefnogi staff sydd â nodweddion gwarchoddedig i ffynnu o fewn y sefydliad.</p>	<p>Mae rhaglenni hyfforddi a mentora annibynnol ac integredig yn rhan o'r ddarpariaeth datblygu rheolwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau ffurfiol a sesiynau mewnol pwrpasol</p>	<p>CWBLHAWYD</p>
<p>Parhau i ddatblygu a gweithredu strategaethau i gynyddu cyfranogiad pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau mewn prentisiaethau.</p>	<p>Hyrwyddo'r cymhorthdal cyflog i brentisiaid anabl er mwyn annog sylfaen cyflogwyr i gyflogi mwy o brentisiaid</p> <p>Mae staff DyyG wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant ychwanegol yn ymwneud â chyflyrau penodol fel ASD</p>	<p>CWBLHAWYD</p>
<p>Parhau i herio stereoteipio rhyweddol mewn prentisiaethau.</p>	<p>Cyfranogi mewn astudiaethau achos i gefnogi hyn</p> <p>Cynhelir diwrnodau merched ym meysydd adeiladu/peirianeg mewn Sefydliadau Technoleg ar draws y safleoedd</p>	<p>CWBLHAWYD</p>
<p>Casglu a dadansoddi data ar holl nodweddion gwarchoddedig staff sydd wedi gadael y Coleg. Nodi camau gweithredu y mae angen eu rhoi ar waith i unioni unrhyw anghydbwysedd.</p>	<p>Cynhelir cyfweiliadau ymadael gan reolwyr erbyn hyn ac mae'r data'n cael ei gasglu'n ganolog gan AD</p> <p>Dadansoddir data cyfweiliadau ymadael gan Bartner Busnes AD a bydd yn ystyried dull seiliedig ar gydraddoldeb i ddeall y data</p>	<p>CWBLHAWYD</p>

## 7. Ein Cynnydd

<p>Casglu'r holl ddata disgyblu a chwyno gan bob nodwedd warchoddedig a, lle bo'n briodol, nodi camau gweithredu y mae angen eu rhoi ar waith i unioni unrhyw anghydbwysedd.</p>	<p>Mae'r holl ddata disgyblu a chwynion yn cael ei gasglu a nodweddion gwarchoddedig yn cael eu nodi</p>	<p>CWBLHAWYD</p>
<p>Nodi strategaethau cymorth ychwanegol a sicrhau bod dysgwyr ag anabledd a neu anhawster dysgu yn manteisio ar y cymorth a gynigir.</p>	<p>Caiff dysgwyr sydd â CDU/EHCP/LSP eu hadolygu mewn panel lle rydym yn asesu pa anghenion cymorth y gallwn eu darparu iddynt</p> <p>Rydym yn cynnal adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer dysgwyr gyda chynlluniau i fonitro eu cynnydd a nodi meysydd i'w datblygu</p> <p>Rydym yn cynnig pontio pwrpasol i ddysgwyr sydd wedi gofyn am gymorth dysgu ychwanegol, neu gymorth iechyd meddwl</p>	<p>CWBLHAWYD</p>
<p>Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng gwahanol grwpiau o ddysgwyr drwy sicrhau bod pob dysgwr yn cael yr un cyfle i lwyddo.</p>	<p>Mae bylchau rhwng gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn cael eu holrhain a'u monitro ar ddangosfwrdd DICE</p> <p>Yn 21/22 rhoddwyd targed gorfodol i leihau bylchau cyrhaeddiad i bob maes o'r coleg; cyrhaeddodd 80% y targed</p>	<p>CWBLHAWYD</p>
<p>Gosod targedau unigol sy'n ymestyn, herio ac ysbrydoli pob dysgwr i gyflawni eu llawn potensial llawn a'u graddau gorau posibl.</p>	<p>Datblygwyd rhaglenni niwroamrywiol sy'n cefnogi dysgwyr ag anawsterau cymdeithasol a chyfathrebu yn benodol e.e. ASD. Cyflwynir eu sesiynau iddynt mewn lleoliad ystafell ddosbarth wedi'i theilwra ar eu cyfer</p> <p>Mae staff yn gweithio gyda dysgwyr sydd â chynlluniau i gefnogi eu targedau a'u canlyniadau o fewn y CDU a'r EHCP</p> <p>Ymgymerir â logiau RARPA ar gyfer dysgwyr mewn rhaglenni niwroamrywiol i'w galluogi i gyrraedd eu hamcanion eu hunain</p>	<p>CWBLHAWYD</p>
<p>Ehangu'r ystod o raglenni AU a chodi ymwybyddiaeth ohonynt o fewn cymunedau a gweithleoedd i dargeduo oedolion o ardaloedd degradd is.</p>	<p>Datblygwyd Cynllun Marchnata AU newydd i dargeduo dysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein darpariaeth addysg uwch</p> <p>Caiff monitro dysgwyr yn ôl amddifadedd ei adrodd i'r Pwyllgor Addysg Uwch a Mynediad bob tymor</p>	<p>CWBLHAWYD</p>

### Amcan 3: Llais a Dylanwad

Cam Gweithredu	Diweddariad	Cynnydd
Cynyddu nifer y bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig ar y corff llywodraethu, er mwyn iddo fod yn fwy cynrychiadol o'r gymuned leol.	Ar ddiwedd 2022/23, roedd cydbwysedd rhywedd Bwrdd y Llywodraethwyr yn 10 gwryw (55.5%) ac 8 menyw (44.5%), sydd wedi cynyddu.  Diweddarwyd y ffurflen monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer y llywodraethwyr i gyd-fynd â'r ffurflen monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth staff.	CWBLHAWYD
Datblygu perthynas â chymunedau lleol a rhanddeiliaid allanol, yn enwedig y rhai sy'n cynrychioli grwpiau gwarchoddedig, i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb.	Rydym wedi datblygu cysylltiadau ag elusennau, sefydliadau a grwpiau lleol sy'n cefnogi cydraddoldeb yn yr ardal leol e.e. EYST, Viva LHDTIC+, Pride Caer a Wrecsam  Fe wnaethom noddi Pride Caer, a gorymdeithio yn eu parêd gyda dros 60 o staff a myfyrwyr	CWBLHAWYD
Gweithio gyda'r corff staff a myfyrwyr ehangach i gynyddu ymgysylltiad, dylanwad a chyd-gynhyrchu yn ein hamcanion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a'n cynlluniau gweithredu.	Rydym wedi datblygu system gynrychiolaeth cydraddoldeb staff a dysgwyr newydd i sicrhau bod profiad byw yn cael ei ymgorffori ym mhopeth rydym yn ei gynnig	CWBLHAWYD
Creu cyfleoedd i staff ymgysylltu â chymunedau a rhwydweithiau lleol, rhannu arfer gorau ac adeiladu cysylltiadau â grwpiau allanol.	Dechrau adeiladu cysylltiadau rhwng staff a chymunedau lleol  - Trip staff i ymweld â'r Mosg ar gyfer Ramadan - Mynychu Pride Caer	CWBLHAWYD

### Amcan 4: Dathlu Amrywiaeth

Cam Gweithredu	Diweddariad	Cynnydd
Parhau i wella amrywiaeth y gweithlu i adlewyrchu proffil ein myfyrwyr yn well, a mynd i'r afael â thangynrychiolaeth o grwpiau gwarchoddedig, yn enwedig yn swyddi rheoli'r Coleg.	Mae amrywiaeth y staff yn cael ei gofnodi a'i olrhain yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb  Ymgwymerwyd â phrosiect Recriwtio Cynhwysol i fynd i'r afael â'r rhwystrau rhag gwneud cais	CWBLHAWYD

## 7. Ein Cynnydd

Datblygu 'Polisi Trawsrywedol' sy'n hyblyg ac yn gefnogol i staff a myfyrwyr.	Datblygwyd polisi ar gyfer staff sy'n newid rhywedd yn y coleg, a chanllawiau i gefnogi myfyrwyr traws  Mae'r rhain yn cael eu hadolygu ym mlwyddyn academaidd 23/24  Mae staff Coleg Cambria yn cynrychioli Colegau Cymru ar grŵp ymgynghori Llywodraeth Cymru ar ddatblygu canllawiau i ysgolion i gefnogi dysgwyr traws ac anneuaid	CWBLHAWYD
Dathlu'r gwahaniaethau rhwng aelodau cymuned y Coleg gyda gweithredoedd, geiriau a delweddau, gan wneud yn fawr o amrywiaeth yn ei ystyr ehangaf.	Datblygwyd Ymgyrch 'Oeddech Chi'n Gwybod?' newydd i rannu ffeithiau a gwybodaeth am gymunedau allweddol  Datblygwyd deunyddiau marchnata yn benodol ar gyfer cymunedau allweddol e.e. LHDTC+	CWBLHAWYD
Cydlynu ymgyrchoedd a gweithgareddau i staff a myfyrwyr gynllunio, cyd-gynhyrchu ac arwain gweithgareddau sy'n herio ymddygiadau nad ydynt yn rhai cynhwysol.	Datblygwyd Grŵp Partneriaeth Staff a Dysgwyr fel rhan o Brosiect Parch  Ymgyrch 'Oeddech Chi'n Gwybod?' yn rhannu gwybodaeth a ffeithiau allweddol  Etholwyd Cynrychiolwyr Cydraddoldeb Myfyrwyr i gyfrannu at waith cydraddoldeb yn y coleg	CWBLHAWYD
Ymrwymo i fod yn gyflogwr Hyderus o ran Anableddau drwy ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu Hyderus o ran Anableddau.	Mae'r coleg yn gyflogwr Hyderus o Ran Anableddau  Mae ein rhaglen ASSCC yn cefnogi dealltwriaeth staff o niwroamrywiaeth a llesiant	CWBLHAWYD

### Amcan 5: Herio Gwahaniaethu

Cam Gweithredu	Diweddariad	Cynnydd
Nodi a gweithredu i fynd i'r afael â gwahaniaethau rhywedd, ethnigrwydd, cyflogau anabledd, gwahanu galwedigaethol a bylchau cyflogaeth.	Datblygwyd adroddiadau bwlch cyflog ar gyfer bylchau cyflog rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd ac fe'u hadroddir i'r Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant, a'r Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth  Bydd camau gweithredu i wella bylchau yn cael eu datblygu	CWBLHAWYD
Cyhoeddi cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau cyflog a nodwyd ar draws nodweddion gwarchoddedig.	Bydd cynlluniau gweithredu yn cael eu datblygu a'u cyhoeddi i fynd i'r afael â'r bylchau cyflog sylweddol yn y coleg	CWBLHAWYD



Sicrhau bod cyflogwyr sydd wedi'u contractio gan y Coleg yn mynd i'r afael â'r uchod.	Y cam gweithredu i'w symud i waith yn y dyfodol yn mynd i'r afael â chyffredinolrwydd cynhwysiant mewn DyyG	
Cynnig gweithio hyblyg a rhan-amser ar gyfer pob swydd oni bai bod rheswm busnes dilys dros atal hynny.	Datblygwyd polisi a phroses gweithio hyblyg sydd ar waith i staff elwa ohono	CWBLHAWYD
